Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Maelor

Llannerch Banna
Wrecsam
LL13 0LU

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025**

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Maelor

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Maelor |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Saesneg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | Ddim yn berthnasol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 787 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 661 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 124 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 21.1%) | 9.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 11.2%) | 6.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.2% |
| Partner arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2024 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 04/02/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 06/10/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Maelor yn gymuned groesawgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn cael eu cynorthwyo'n dda, ac yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn trafodaethau dosbarth. Maent yn cydweithio'n effeithiol â chyfoedion, gan ddangos parch ac aeddfedrwydd.

Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr wedi datblygu diwylliant o gydweithio ac atebolrwydd ar y cyd. Mae prosesau sicrhau ansawdd yn darparu tystiolaeth uniongyrchol ddefnyddiol ar gyfer arweinwyr, ac mae hunanwerthuso yn llywio cynllunio gwelliant yn effeithiol. Mae dysgu proffesiynol yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol ac yn cael ei werthfawrogi gan staff. Mae llawer o arweinwyr canol yn deall eu rolau'n dda, er nad yw lleiafrif ohonynt bob amser yn gwerthuso effaith eu gwaith ar gynnydd disgyblion yn gywir, ac nid yw ychydig ohonynt yn eglur wrth gynllunio i wella dysgu'r disgyblion.

Mae'r addysgu'n effeithiol, ar y cyfan, ac mae llawer o athrawon yn datblygu perthnasoedd cryf â disgyblion ac yn rheoli ymddygiad yn dda. Yn y gwersi mwyaf llwyddiannus, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sydd â dilyniant da, yn defnyddio cwestiynau treiddgar, ac yn addasu eu haddysgu i ddiwallu anghenion disgyblion. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, mae disgwyliadau isel, tasgau diymdrech a holi gwan athrawon yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion.

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu ymagwedd ystyriol at ddatblygu medrau rhifedd a digidol disgyblion. Mae cymhwysedd digidol yn gryfder nodedig, a dilyniant wedi'i fapio'n glir ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau digidol yn effeithiol mewn ystod o bynciau, yn cynnwys meysydd fel celf a drama. Mae rhifedd wedi'i ddatblygu'n dda, ac mae llawer o ddisgyblion yn datrys problemau cymhleth ac yn cymhwyso medrau data mewn gwyddoniaeth. Cefnogir llythrennedd ar draws y cwricwlwm, er mai megis dechrau datblygu y mae cynllunio ar gyfer ei ddatblygu'n raddol.

Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys, gyda gweledigaeth glir yn cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru. Mae'n hyrwyddo diwylliant a thraddodiadau Cymru ac yn cefnogi datblygiad creadigol ac artistig disgyblion yn dda. Mae cydweithio ag ysgolion cynradd a cholegau lleol yn ymestyn dilyniant a chyfleoedd galwedigaethol.

Mae staff yn meithrin perthnasoedd ymddiriedus â disgyblion ac yn hyrwyddo lles trwy wasanaethau a gweithgareddau eraill. Caiff cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hyrwyddo'n effeithiol trwy amrywiaeth o ddigwyddiadau a Phwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth disgyblion a ffurfiwyd yn ddiweddar. Mae disgyblion a staff yn deall gweithdrefnau diogelu, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae llywodraethwyr yn darparu cymorth a her effeithiol. Mae'r cynllunio ariannol yn drylwyr, er bod yr ysgol yn wynebu diffyg sylweddol yn y gyllideb ar hyn o bryd. Mae'r ysgol yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn effeithiol i gefnogi disgyblion dan anfantais, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae presenoldeb disgyblion yn parhau i fod islaw lefelau cyn y pandemig.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Parhau i weithio tuag at leihau'r diffyg yn y gyllideb

A2. Sicrhau bod pob arweinydd, yn enwedig arweinwyr canol, yn gwerthuso darpariaeth yn ôl ei heffaith ar ddysgu'r disgyblion

A3. Gwella cyfraddau presenoldeb ysgol gyfan

A4. Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn gynyddol, yn enwedig eu medrau darllen datblygedig

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â chynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

# Prif ganfyddiadau

## Addysgu a dysgu

### Addysgu, cynnydd ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn Ysgol Maelor yn gwrtais a chroesawgar. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi, yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn awyddus i gyfrannu at drafodaethau dosbarth cyfan. Mae llawer o ddisgyblion yn ymdawelu'n gyflym ac yn dal ati i ganolbwyntio trwy gydol y wers. Maent yn gweithio'n dda mewn parau neu grwpiau bach, gan wrando ar safbwyntiau ei gilydd, a'u parchu.

Mae gan ddisgyblion y chweched dosbarth agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn mynd ati'n weithgar i gymryd rhan yn eu gwersi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n dda yn annibynnol ac yn dyfalbarhau pan fyddant yn wynebu tasgau heriol. Mae llawer ohonynt yn rhoi atebion manwl a chywir i gwestiynau athrawon.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn meithrin perthnasoedd gwaith cryf â disgyblion ac yn rheoli ymddygiad yn gyson dda. Maent yn dangos gwybodaeth bwnc gadarn, yn fodelau iaith effeithiol ac yn defnyddio terminoleg sy'n benodol i bwnc i ymestyn dysgu'r disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio gwersi sydd â dilyniant da, gan alluogi disgyblion i alw gwybodaeth flaenorol i gof a chymhwyso'u gwybodaeth mewn gwahanol gyd-destunau. Maent yn darparu esboniadau effeithiol ac yn modelu prosesau'n dda i gefnogi dealltwriaeth disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud y cynnydd disgwyliedig, o leiaf.

Mewn ychydig o wersi lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd hynod o gryf, mae athrawon:

- yn cynllunio gweithgareddau effeithiol sy'n herio ac yn ysbrydoli disgyblion yn dda
- yn gofyn cwestiynau treiddgar yn fedrus sy'n ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ac yn eu hannog i feddwl yn ddwys
- yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus ac yn addasu cyflymdra'r wers yn unol â hynny
- yn addasu gwersi'n dda ac yn darparu cymorth buddiol i ddisgyblion â medrau gwannach.

Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig o ganlyniad i ddiffygion mewn addysgu. Yn y gwersi hyn, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, ac maent yn aml yn cynllunio tasgau diymdrech. Mae diffyg eglurder yn eu disgwyliadau ac nid ydynt yn defnyddio holi'n ddigon da i gefnogi dysgu a meddwl disgyblion.

Mae athrawon yn monitro'r cynnydd yn nysgu'r disgyblion yn dda mewn llawer o wersi. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn holi disgyblion yn briodol i wirio'u dealltwriaeth. Maent yn rhoi adborth defnyddiol ar lafar sy'n galluogi disgyblion i wneud gwelliannau i'w gwaith. Yn gyffredinol, mae athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig buddiol a manwl gywir. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn ddigon da i'r adborth hwn i wneud gwelliannau i'w gwaith.

Mae dwy ddarpariaeth yr awdurdod lleol, sef yr 'Uned Cymorth Cyfathrebu' (CSU) a'r 'Uned Cymorth Llythrennedd' (LSU) yn groesawgar a chefnogol. Mae arweinwyr a staff wedi meithrin amgylchedd dysgu digynnwrf, cynhyrchiol a chefnogol lle mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Mae staff yn cynllunio cyfleoedd dysgu yn ofalus i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion eu disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd disgwyliedig o ran datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol a chyfathrebu.

## Medrau

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu ymagwedd synhwyrol at ddatblygu medrau disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o gyfleoedd gwerthchweil i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth i gefnogi datblygu'r medrau hyn yn gynyddol yn cael ei chynllunio a'i chydlynu'n dda, ac yn cael ei chefnogi'n briodol mewn pynciau perthnasol. Mae'r cydlynu a'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau digidol disgyblion yn gryfder nodedig, lle mae dilyniant wedi cael ei ystyried a'i gynllunio'n feddylgar ar gyfer pob rhan o'r cwricwlwm. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau ei hymagweddau at ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd disgyblion, a rhoddir cyfleoedd priodol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ac yn ymateb yn briodol i gyfraniadau disgyblion eraill, ac mae llawer o ddisgyblion yn cyfleu eu hystyr yn glir wrth gyfrannu at drafodaethau dosbarth. Mae ffocws clir ar ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o eirfa sy'n benodol i bwnc yn cyfoethogi eu cyfraniadau ar lafar ac yn gwella'r defnydd o'r eirfa hon mewn ymatebion ysgrifenedig. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cynnig cyfraniadau estynedig yn ystod trafodaethau.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen ac yn crynhoi gwybodaeth o destunau syml yn addas, er enghraifft wrth ddisgrifio sut gwnaeth twmpathau termitiaid ysbrydoli dyluniad adeiladau yn Simbabwe. Mae mwyafrif y disgyblion yn llunio casgliadau wedi'u seilio ar destun yn effeithiol, er enghraifft wrth ddadansoddi sut mae Willy Russell yn cyflwyno cymeriadau Mrs Johnstone a Mrs Lyons yn nrama 'Blood Brothers'. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio ystod o fedrau darllen yn ddigon da wrth ddadansoddi testunau darllen mwy cymhleth. Yn aml, maent yn dibynnu gormod ar eu hathro a'u

cyfoedion am gymorth. Pan fydd cyfleoedd yn codi, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen ar goedd yn dda, yn ynganu geiriau heriol yn gywir ac yn darllen â mynegiant. Fodd bynnag, er bod ganddi lyfrgell ag adnoddau da, megis dechrau hyrwyddo diwylliant darllen y mae'r ysgol.

Mewn llawer o achosion, mae disgyblion yn elwa ar ystod o gyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig ac ar gyfer gwahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. Mae llawer ohonynt yn gwneud hynny'n briodol ac yn strwythuro'u gwaith yn addas o ganlyniad i fframiau ysgrifennu defnyddiol wedi'u darparu gan eu hathrawon. Mae lleiafrif ohonynt yn ysgrifennu â hyder a soffistigeiddrwydd, ac yn ennyn ymgysylltiad y darllenydd yn llwyddiannus. Er bod yr ysgol wedi sefydlu ymagwedd synhwyrol at wella cywirdeb technegol disgyblion, mae lleiafrif o ddisgyblion yn parhau i wneud camgymeriadau sylfaenol yn eu hysgrifennu.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda. Mae ganddynt fedrau rhif sylfaenol cadarn, yn cyfrifo â degolion ac yn gweithio'n dda gyda ffurf safonol. Mae gan leiafrif o ddisgyblion fedrau rhifedd cryf, er enghraifft pan fyddant yn symleiddio syrdiau neu'n ffactorio mynegiannau algebraidd.

Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o siâp a mesur. Maent yn newid yn rhwydd rhwng gwahanol fesurau, ac yn mesur gwrthrychau a chyfrifo cymedrau'n gywir yn eu gwersi dylunio a thechnoleg.

Mewn pynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau data yn addas. Maent yn llunio ystod o graffiau'n gywir ac yn dadansoddi graffiau'n briodol, er enghraifft mewn gwyddoniaeth pan fyddant yn nodi effaith nifer y stomata ar gyfradd colli dŵr. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn cwblhau graffiau'n gywir nac yn dadansoddi eu canfyddiadau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn dda. Ceir ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'r medrau hyn mewn cyd-destunau perthnasol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, yn eu gwersi celf, maent yn defnyddio meddalwedd graffeg yn effeithiol i drin eu gwaith celf, ac mewn gwersi drama, maent yn cynhyrchu ac yn golygu ffilmiau byr.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol at ddysgu Cymraeg. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen darnau o destunau byr i ddethol gwybodaeth berthnasol neu gywiro camgymeriadau syml. Pan roddir cymorth iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu paragraffau byr, er enghraifft i ddisgrifio ble aethant ar wyliau, a pha weithgareddau wnaethon nhw. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn dangos hyder wrth ddarllen ar goedd ac maent yn ynganu'n addas. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae disgyblion yn ei chael yn anodd ymateb yn annibynnol neu mewn ffordd fwy digymell wrth siarad

Cymraeg. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi yn gyfyngedig.

## Cwricwlwm

Mae'r ysgol wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer Cwricwlwm i Gymru sy'n cadw ymagwedd ddisgyblaethol o ran pwnc, tra'n cynnal proffil medrau trawsgwricwlaidd. Mae'r cwricwlwm hwn yn darparu manylder ac ehangder addas ac yn darparu ystod o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am hanes, diwylliant a thraddodiadau Cymru. Mae'r cwricwlwm yn cefnogi datblygiad corfforol, creadigol ac artistig disgyblion yn dda.

Mae llawer o arweinwyr y cwricwlwm wedi cynllunio'n effeithiol ar gyfer y cwricwlwm newydd. Maent wedi cydweithio'n effeithiol ag ysgolion cynradd yn eu clwstwr i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd disgyblion, er enghraifft trwy ddatblygu 'ysgolion dilyniant'.

Mae'r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) wedi'i strwythuro'n dda ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9, sy'n helpu disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol, yn cynnwys arweiniad buddiol ar amrywiaeth a dewisiadau iach am ffordd o fyw. Fodd bynnag, mae ymdriniaeth y cwricwlwm o ran ABCh yn fwy cyfyngedig ym Mlynyddoedd 10 ac 11, ac yn absennol yn y chweched dosbarth.

Mae disgyblion yn cael cymorth effeithiol i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u camau nesaf. Mae'r ysgol yn cynnig ystod briodol o opsiynau ar gyfer disgyblion hŷn, gan gynnwys mathemateg ychwanegol a chymwysterau Lefel 2, fel Dysgu yn yr Awyr Agored. Mae arweinwyr wedi gwella proses opsiynau'r ysgol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9, sydd wedi cael ei groesawu gan ddisgyblion a theuluoedd. Mae arweinwyr yr ysgol wedi datblygu rhaglen yrfaoedd fuddiol, er enghraifft ffair yrfaoedd sy'n cael ei chynnal bob blwyddyn ac ymweliadau â'r ysgol gan weithwyr proffesiynol o ystod o sectorau fel meddygaeth a harddwch.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod o weithgareddau sy'n cyfoethogi eu profiadau o'r cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys tripiau, er enghraifft ymweliad ag Eisteddfod Llangollen, trip preswyl Blwyddyn 7 i Boreatton Park a thrip Blwyddyn 10 i'r Dolomitau. Caiff disgyblion elwa hefyd ar galendr o gyfleoedd cyfoethogi allgyrsiol, er enghraifft sioeau cerdd ysgol gyfan, clwb gwyddbwyll a chlwb Just Dance. Mae darpariaeth addas i ddisgyblion brofi diwylliant a thraddodiadau Cymru, er enghraifft yr Eisteddfod flynyddol, cymryd rhan yng ngorymdaith leol Dydd Gŵyl Dewi, ac ymglymiad disgyblion â'r Urdd.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae staff yn Ysgol Maelor yn adeiladu perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedus yn llwyddiannus â'u disgyblion. Caiff disgyblion eu cynorthwyo'n dda gan staff, gan arwain at

ymdeimlad cryf o gymuned, lle mae staff a disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd yn gynhyrchiol.

Mae'r ysgol yn datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn briodol. Caiff testunau pwysig eu harchwilio ac eir i'r afael â nhw trwy wasanaethau, gweithgareddau amser dosbarth ac ymweliadau gan ystod o asiantaethau allanol, fel nyrs yr ysgol a sefydliadau elusennol lleol. Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar eu gweithredoedd a gwneud dewisiadau priodol ac iach am ffordd o fyw.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn briodol trwy ystod o ddigwyddiadau. Yn fuddiol, mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a ffurfiwyd yn ddiweddar yn dechrau codi ymwybyddiaeth am faterion cyfoes pwysig i gefnogi dealltwriaeth disgyblion o degwch a pharch. Mae'r Cyngor Ysgol wedi'i ailsefydlu yn dechrau rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain.

Mae gan yr ysgol brosesau clir i ddelio ag unrhyw achosion honedig o fwlio. Mae disgyblion yn dweud yr eir i'r afael â phryderon yn gyflym. Mae'r hyb bugeiliol a ddatblygwyd yn ddiweddar yn darparu pwynt cyswllt priodol ar gyfer disgyblion sy'n chwilio am fwy o gymorth. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn gweithio gydag ystod helaeth o asiantaethau allanol i ddiwallu anghenion disgyblion, er enghraifft trwy ddarpariaethau mentora, gwasanaethau cwnsela a chymorth lles addysgol.

Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion ar adegau pontio allweddol yn dda. Ceir nifer o weithgareddau buddiol ar gyfer disgyblion sy'n symud o'r ysgol gynradd, gan gynnwys cyfnod pontio estynedig ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae disgyblion hŷn yn elwa ar gymorth arbenigol gan gynghorydd gyrfaoedd, yn ogystal ag ymweliadau â phrifysgolion lleol.

Mae staff yn y tîm ADY yn ymroi i wella dysgu'r disgyblion y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae arweinwyr a staff wedi creu lle cadarnhaol a chynhyrchiol ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae'r ysgol yn addasu ei darpariaeth i ddiwallu anghenion disgyblion yn briodol, er enghraifft datblygu mwy o gymorth medrau bywyd fel coginio. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion ag ADY yn gwneud datblygiad priodol mewn medrau personol, cymdeithasol a chyfathrebu.

Mae disgyblion o'r unedau arbenigol yn mynychu gwersi yn yr ysgol brif ffrwd, yn ogystal â chymorth arbenigol pwrpasol. Mae hyn yn cynnwys datblygu medrau bywyd hanfodol fel cyllidebu. Mae'r disgyblion hyn yn gwerthfawrogi'r gofal y maent yn ei gael, ac yn ymateb yn dda iddo. O ganlyniad, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd addas.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb da yn briodol trwy gyfathrebu'n rheolaidd â'r cartref a gwobrau presenoldeb. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos gydag unigolion y mae eu presenoldeb yn achosi pryder i gael gwared ar rwystrau rhag dysgu. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar y cyflwynwyd nifer o fentrau. Rhwng blynyddoedd

academaidd 2018-2019 a 2022-2023, disgynnodd cyfradd presenoldeb yr ysgol yn llai na'r hyn a welwyd yn genedlaethol. Fodd bynnag, ers hynny, nid yw cyfradd presenoldeb yr ysgol wedi gwella, ac mae'n parhau i fod islaw lefelau cyn y pandemig. Mae'r maes hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig i wella ar gyfer yr ysgol.

Gyda'i gilydd, mae arweinwyr wedi meithrin diwylliant diogelu clir ar draws yr ysgol, gan sicrhau bod pawb yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau i ddiogelu disgyblion. Mae aelodau o'r tîm diogelu, sydd wedi cael ei ymestyn yn ddiweddar, yn dangos dealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae staff yn ymgymryd â'r hyfforddiant diogelu perthnasol ac yn gwneud atgyfeiriadau i asiantaethau, pan fydd angen. Mae llywodraethwyr wedi cael eu hyfforddi'n briodol, hefyd. Mae llywodraethwr diogelu dynodedig yn goruchwylio gweithdrefnau, ac mae llywodraethwyr yn cael diweddariadau rheolaidd am faterion diogelu. Mae disgyblion yn gwybod sut i roi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch diogelu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn Ysgol Maelor yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn ddiogel.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol, ddynamig ac ystyriol yn unol â gweledigaeth yr ysgol i alluogi disgyblion i 'fod y fersiwn orau ohonyn nhw eu hunain'. Mae'r pennaeth wedi rheoli newid yn effeithiol, a gyda chymorth y corff llywodraethol, wedi sicrhau bod disgyblion bob amser yn ganolog i waith yr ysgol. Caiff y pennaeth ei gynorthwyo'n dda gan yr uwch dîm arweinyddiaeth. Yn gyffredinol, mae rolau yn y strwythur uwch arweinyddiaeth a sefydlwyd yn ddiweddar yn glir, yn deg ac yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau gwella'r ysgol.

Mae uwch arweinwyr wedi llwyddo i ddatblygu diwylliant o gydweithio, myfyrio ac atebolrwydd ar draws yr ysgol. Yn gyffredinol, mae trefniadau rheolaeth llinell yn galluogi arweinwyr i ddwyn staff i gyfrif yn addas. Mae agendâu penodol ar gyfer y cyfarfodydd rhwng uwch arweinwyr ac arweinwyr canol bob pythefnos yn sicrhau bod sylw dyladwy'n cael ei roi i agweddau pwysig ar waith yr ysgol mewn modd amserol. Mae'r cyfarfodydd yn cynnwys cydbwysedd addas o gymorth, her ac arweiniad i helpu arweinwyr i ddod yn fwy effeithiol yn eu rolau.

Mae gan arweinwyr ffocws cryf ar fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol. Maent wedi sicrhau bod disgyblion yn cael ystod o gyfleoedd gwerthchweil i gymhwyso'u medrau rhifedd a digidol yn eu cyd-destun ar draws y cwricwlwm. Yn ychwanegol, maent wedi llwyddo i sicrhau bod disgyblion ag ADY yn y ddwy ganolfan adnoddau arbenigol yn cael cyfleoedd niferus i ddefnyddio darpariaeth brif ffrwd, ac maent yn aelodau gwerthfawr o gymuned yr ysgol. Mae hyn yn adlewyrchu ethos cynhwysol yr ysgol.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn ymgymryd ag ystod fuddiol o weithgareddau sicrhau ansawdd, gan gasglu ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Yn gyffredinol, maent yn defnyddio data yn effeithiol i lywio'u gwerthusiadau. Mae uwch arweinwyr yn cyfosod gwybodaeth o'r gwahanol ffynonellau tystiolaeth yn dda i nodi cryfderau manwl gywir y gellir eu rhannu, a meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn blaenoriaethu'r prif feysydd ac yn cynllunio ar gyfer gwelliant yn effeithiol. Mae hyn, er enghraifft, wedi arwain at welliannau yn ymddygiad disgyblion, er nad yw wedi cael effaith ddigonol ar gyfradd presenoldeb bresennol yr ysgol gyfan.

Ceir cysylltiad clir rhwng canfyddiadau ysgol gyfan am brosesau hunanwerthuso, cynllunio gwelliant, adolygiadau datblygiad proffesiynol a dysgu proffesiynol fel rhan o gylch parhaus o werthuso a datblygu. Mae'r blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun datblygu ysgol tair blynedd wedi'u gwreiddio'n gadarn yng ngweledigaeth yr ysgol i sicrhau amgylchedd cefnogol, cynhwysol ac uchelgeisiol. Mae trefniadau addas i rieni rannu eu barn ar waith yr ysgol, er mai megis dechrau datblygu y mae cyfleoedd ffurfiol i gasglu barn disgyblion.

Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer staff. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau hyfforddi mewnol ac allanol, sesiynau briffio rheolaidd lle mae staff yn rhannu arfer dda, a chyfleoedd defnyddiol i staff arsylwi eu cymheiriaid. Mae staff yn gwerthfawrogi'r trefniadau adolygu datblygiad proffesiynol, sy'n eu galluogi i gymryd perchnogaeth dros ddatblygu eu harfer addysgu a'u medrau arwain. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod yr amcanion datblygu a ddewiswyd gan staff yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau'r ysgol gyfan ar gyfer gwella.

Mae llawer o arweinwyr canol yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'u rôl, ar y cyfan. Maent yn teimlo'u bod yn cael cefnogaeth dda gan eu rheolwyr llinell. Mae gan arweinwyr canol ddealltwriaeth addas o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella bras yn eu meysydd cyfrifoldeb, tra bod gan fwyafrif ohonynt ddealltwriaeth fanwl o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu penodol. Mae'r arweinwyr hyn yn cynllunio ar gyfer gwelliant yn ystyriol ac mae ychydig ohonynt yn hynod effeithiol yn eu rolau. Fodd bynnag, mae lleiafrif o arweinwyr canol yn rhy hael o ran eu gwerthusiad o'r ddarpariaeth. Mae hyn yn aml oherwydd nad ydynt yn canolbwyntio'n ddigon dda yn gyson ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion neu maent yn dibynnu'n ormodol ar ddata deilliannau. Nid yw ychydig o arweinwyr canol yn deall eu rôl o ran gwella dysgu disgyblion yn ddigon da.

Mae arweinwyr yn cyfathrebu'n rheolaidd ac yn effeithiol â disgyblion a rhieni i roi gwybod iddynt am newidiadau yn yr ysgol, a dathlu cyflawniadau disgyblion. Mae llywodraethwyr wedi ymrwymo'n llwyr i lwyddiant yr ysgol ac yn rhoi cymorth a her werthfawr i uwch arweinwyr. Mae'r pennaeth, y corff llywodraethol a'r rheolwr busnes yn monitro gwariant yr ysgol yn ddiwyd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae diffyg sylweddol yng nghyllideb yr ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o strategaethau i wella deilliannau disgyblion o aelwydydd incwm isel. Mae hyn yn cynnwys defnydd doeth o'r Grant Datblygu Disgyblion, sy'n cael ei gynllunio a'i werthuso'n drylwyr. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau presenoldeb ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n cymharu'n ffafriol â chyfraddau presenoldeb yr un grŵp yn genedlaethol. Fodd bynnag, yn ystod blynyddoedd academaidd 2022-2023 a 2023-2024, mae perfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion yn eu cymwysterau Blwyddyn 11 islaw perfformiad eu cyfoedion mewn ysgolion tebyg, ar y cyfan.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Er bod gan yr ysgol ddiffyg sylweddol, mae arweinwyr a llywodraethwyr wedi gwneud cynlluniau addas i leihau'r diffyg yn y gyllideb. Mae arweinwyr yn rheoli'r grant datblygu disgyblion yn briodol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/12/2025